

Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf – Datganiad ynghylch Ceisiadau Dadfuddsoddi

Mae'r datganiad canlynol yn darparu diweddariad i Aelodau'r Cynllun a Chyflogwyr y Cynllun ynglŷn â galwadau i dadfuddsoddi buddsoddiadau cynllun pensiwn llywodraeth leol sydd i'w gweld yn cefnogi'r gwrthdaro diweddar yn y Tiriogaethau Meddianedig Palesteina.

Cyfrifoldeb pennaf Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf yw gweithredu er budd ariannol gorau aelodau a chyflogwyr ein cynllun. Yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, mae'n ofynnol i ni yn ôl y gyfraith sicrhau bod y Gronfa'n cael ei rheoli'n briodol er mwyn talu pensiynau pan maen nhw'n ddyledus.

Pwyllgor Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf sy'n gyfrifol am fuddsoddiad y Gronfa Bensiwn, ac mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gyfrifol am y buddsoddiad yna. Mae gan y Pwyllgor gyfrifoldebau ymddiriedol i weithredu'n unol â gofynion cyfreithiol, rheoliadau a'i fframweithiau ei hun sydd wedi'u nodi yn nogfennau llywodraethu'r Gronfa. Mae'r Gronfa'n parhau i gydymffurfio â'r holl gyfrifoldebau cyfreithiol yma.

Er bod y Gronfa'n cydnabod blaenoriaeth ei dyletswyddau ymddiriedolaethol, mae'n gallu rhoi sylw dyledus i egwyddorion 'Buddsoddi Cyfrifol', sydd wedi'u nodi yn ei Datganiad Strategaeth Buddsoddi. Rydyn ni'n cydnabod efallai bod gan aelodau a chyflogwyr y cynllun farn gref/wahanol mewn perthynas â materion polisi rhyngwladol. Mae cyngor Bwrdd Cyngori'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn glir bod buddsoddiadau'n parhau i ganolbwyntio ar ystyriaethau ariannol yn unig lle mae'n debyg bod gan aelodau'r cynllun farn wahanol ynghylch ystyriaethau anariannol.

Mae Bwrdd Cyngori'r Cynllun wedi ymateb i'r ymgyrch dadfuddsoddi mwyaf diweddar sydd wedi'i harwain gan Ymgyrch Undod â Phalesteina, sy'n cynnwys ceisiadau cyfreithiol manwl yn gofyn i gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ddadfuddsoddi o gwmnïau sy'n gysylltiedig â thorri cyfraith ryngwladol yn ôl y sôn.

Ysgrifennodd Bwrdd Cyngori'r Cynllun at Weinidog y Llywodraeth Leol ar 13 Hydref 2025 yn gofyn barn Llywodraeth San Steffan ar y mater cymhleth yma er mwyn darparu eglurder i'r 86 Cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) ledled Lloegr a Chymru.

https://lgpsboard.org/images/MinisterialLetters/13102025_PSClettertoLGMinister.pdf

Yn lleol, mae'r mwyafrif o fuddsoddiadau Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf nawr yn cael eu rheoli trwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru fel cronfeydd ar y cyd, mewn cydweithrediad â'r 8 Cronfa Bensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sydd yng Nghymru. O ganlyniad, bydd angen i unrhyw ddull dadfuddsoddi gael ei wneud trwy broses cydweithredol rhwng yr 8 Cronfa Gymreig.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymrwymo i ddarparu datrysiadau buddsoddi i'w Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd y datrysiadau yma'n eu galluogi nhw i weithredu eu strategaethau buddsoddi lleol, cyflawni eu dyletswyddau ymddiriedol ar gyfer aelodau eu cronfa bensiwn a chydymffurfio â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016 (**'Rheoliadau 2016'**) (a chanllawiau statudol cysylltiedig).

Mae ystyried risgiau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu'n rhan bwysig o oblygiadau'r Awdurdodau Cyfansoddol wrth lunio'u datganiadau strategaeth buddsoddi unigol (ar ben Rheoliadau 2016) ac wrth gyflawni eu dyletswyddau ymddireidol i'w haelodau mewn perthynas â buddsoddi. O ganlyniad, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn darparu datrysiadau buddsoddi sy'n cynnwys ystyriaethau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu. Fel y gwyddoch o'r fframwaith cyfreithiol presennol, does dim modd i bob Awdurdod Cyfansoddol gael ei ysgogi gan ystyriaethau moesegol yn unig wrth gyflawni ei ddyletswyddau ymddiriedol sy'n ymwneud â materion buddsoddi.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod y gall cam-drin Hawliau Dynol gynrychioli risg Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu sylweddol o fewn Partneriaeth Pensiwn Cymru, a'i Awdurdodau Cyfansoddol, ar ffurf risgiau llywodraethu (gan gynnwys risg ymryson a risg enw da). Rydyn ni hefyd yn cydnabod y gall y risgiau yma ffurfio neu ddatblygu i fod yn risgiau ariannol a chyfreithiol.

Ar 17 Tachwedd 2025, cyhoeddodd Partneriaeth Pensiwn Cymru ddatganiad wedi'i ddiweddarau ynglŷn â'i bwriad o ran gwaharddiadau a dadfuddsoddi er mwyn cryfhau trefniadau Partneriaeth Pensiwn Cymru ymhellach o ran 'Buddsoddi Cyfrifol':

Datganiad PPC ar waharddiadau a dadfuddsoddi

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) yn cymryd ei chyfrifoldebau fel perchennog asedau o ddifrif. Rydym yn anelu at fod yn stiwardiaid cyfrifol, ac yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod ein buddsoddiadau yn adlewyrchu ein gwerthoedd a'n rhwymedigaethau cyfreithiol. Rydym yn adeiladu ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yn ein gwaith buddsoddi a stiwardiaeth. Mae hyn yn cwmpasu materion fel newid yn yr hinsawdd, hawliau dynol a thorri cyfraith ryngwladol.

Rydym wedi ymrwymo i wrando, deall ac ymateb yn agored ac yn gyfrifol i bryderon ein haelodau, gan ddilyn ein dyletswyddau cyfreithiol a'r canllawiau diweddaraf gan Fwrdd Cyngori Cynllun CPLIL.

Rydym yn cymryd ymagwedd aml-haenog at stiwardiaeth. Robeco yw ein Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu penodedig, ac rydym hefyd yn aelodau o Fforwm Cronfa Bensiwn yr Awdurdodau Lleol. Mae'r ddau barti yn ymgysylltu â chwmnïau ar ein rhan i sbarduno gwelliannau mewn arferion ac adroddiadau, ac i'n helpu i leihau risgiau yn ein buddsoddiadau. Rydym yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar eu cynnydd, sy'n llywio ein penderfyniadau. Os bydd ymgysylltu â chwmni nad yw'n adlewyrchu ein gwerthoedd a'n rhwymedigaethau cyfreithiol yn methu, rydym yn trafod camau gweithredu posibl gyda'n rheolwyr buddsoddi, ac mae dadfuddsoddi yn ganlyniad posibl.

Mae gan rai o'n strategaethau buddsoddi eithriadau penodol eisoes, sy'n golygu nad ydym yn buddsoddi mewn cwmnïau sy'n ymwneud â, er enghraifft, tybaco, olew palmwydd, arfau dadleuol a mwynogloddio glo. Ar hyn o bryd rydym yn adolygu ein fframwaith buddsoddi, gan gynnwys eithriadau a allai fod yn berthnasol i bob buddsoddiad PPC, lle bo hynny'n bosibl. Rydym yn disgwyl gorffen yr adolygiad hwn erbyn dechrau 2026.

Mae Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf a Phartneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau i weithredu fel buddsoddwyr cyfrifol ac yn ystyried materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn rhan annatod o'r broses o wneud penderfyniadau buddsoddi. Bydd yr ymrwymiad a'r cynllun diweddaraf yma ar gyfer y dyfodol, i gefnogi datblygiad polisi gwahardd addas, yn gwella'r mesurau cydweithredol 'Buddsoddi Cyfrifol' sydd eisoes ar waith ymhellach.

Yn hyn o beth, bydd y Gronfa'n parhau i fonitro datblygiadau, gan sicrhau bod pob penderfyniad yn gyson â'n dyletswydd ymddiriedol a'r fframwaith rheoleiddio.